| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2013** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus ac Arweinydd y Cyngor** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol<br>Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Gorfodi Parcio a'i heffaith ar Ddatblygu Economaidd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Archwilio Strategaeth Gorfodi Parcio'r Cyngor a'i heffaith ar yr economi leol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi gofyn am bapur i archwilio sut y mae strategaeth gorfodi parcio yn effeithio ar yr economi leol ac i ganfod unrhyw ddiffygion yn y strategaeth all leihau effeithiolrwydd y Cyngor wrth ddarparu'r flaenoriaeth gorfforaethol i ddatblygu'r economi leol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor:

3.1. Ddarparu sylwadau a chefnogi datblygu polisi parcio newydd ar y cyd rhwng Adran Priffyrdd a Datblygu Economaidd a Busnes; a

3.2 Chefnogi'r cynnig i gynnal ymarfer cwmpasu i werthuso'r gofynion manwl ar gyfer adolygiadau parcio a thraffig ym mhob tref. Bydd hyn yn galluogi cynhyrchu dyfynbrisiau cost cywir a fyddai'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio cyn symud ymlaen gyda'r adolygiadau.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. <u>Cyflwyniad</u>
Y cam cyntaf wrth ystyried darpariaeth parcio yw ystyried polisi parcio. Mae angen i'r polisi parcio adlewyrchu'r hyn y ceisiwn ei gyflawni yn narlun llawn polisïau cludiant, defnydd tir a datblygu economaidd. Er enghraifft, mewn dinasoedd mwy efallai mai'r amcan fyddai lleihau nifer y traffig sy'n mynd i ganol y dref.

Mewn trefi llai ac ardaloedd gwledig, megis Sir Ddinbych, fel arfer mae polisïau parcio yn canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r llefydd parcio sydd ar gael er lles y trigolion a'r economi leol. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso'r amcan hwn yn erbyn yr angen i gadw'r traffig yn llifo a pheidio â gwaethygu diogelwch y ffordd.
Pan fydd polisi parcio wedi'i benderfynu bydd angen datblygu cynllun i gyflawni amcanion y polisi gan ystyried nifer o ffactorau megis argaeledd a phrisiau gofodau

parcio oddi ar y stryd, polisi ar gyfer gwaharddiadau parcio ar y stryd a strategaeth gorfodi.

4.2 Cefndir

Ysgrifennwyd Polisi Parcio'r Cyngor yn 1996; ac mae copi wedi'i ddarparu yn Atodiad 1.

Roedd gorfodaeth parcio wedi'i ddad-droseddoli yn Sir Ddinbych yn 2004. Cyn hyn, roedd yr orfodaeth yn cael ei gynnal gan yr Heddlu. Yn ymarferol, roedd gorfodaeth yr Heddlu yn cael ei gynnal gan un warden traffig rhan amser oedd yn weithredol ledled y Sir. Ymddeolodd y warden traffig yn 2001 a ni chafwyd warden newydd yn ei le. Y gwir am y sefyllfa cyn 2004 oedd bod y rhan fwyaf yn anwybyddu gwaharddiadau parcio ar y stryd gan fod diffyg gorfodaeth. Achosodd hyn nifer o drafferthion diogelwch ffyrdd a lleihau nifer y gofodau parcio ar gyfer siopwyr gan fod yr un cerbyd yn aros mewn gofodau arhosiad byr drwy'r dydd. Ni oedd y sefyllfa'n berthnasol ar gyfer meysydd parcio oddi ar y stryd oedd yn cael eu gorfodi gan Weinyddwyr Parcio a gyflogwyd gan y Cyngor.

Oherwydd hyn penderfynodd y Cyngor ddad-droseddoli gorfodaeth parcio, a hwy oedd y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Wedi hynny, mae nifer o awdurdodau unedol Cymru wedi penderfynu dad-droseddoli Gorfodaeth Parcio.

4.3 Gorfodi

Mae'r Cyngor yn cyflogi 7 Swyddog Gorfodi Sifil Llawn Amser a 2 staff cyflenwi. Dosbarthwyd cyfanswm o 8,894 o Rybuddion Talu Cosb yn 2012. Mae'r nifer hwn wedi gostwng yn raddol ers 2006. Gellir egluro'r gostyngiad gan fod gyrwyr yn fwy tebygol o gydymffurfio yn awr. Gellir cael mwy o fanylion am weithgareddau gorfodi yn Atodiad 2.

4.4 Effaith polisi a strategaethau parcio ar yr economi leol

Yn wahanol i awdurdodau lleol eraill, nid cyfyngu ar ofodau parcio neu osod prisiau uchel i annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir oedd amcan Polisi Parcio Sir Ddinbych, ac mae'r polisi o gyfyngu parcio ar y stryd yng nghanol trefi i arhosiad byr wedi'i gyfuno gyda gorfodi effeithiol yn caniatáu defnydd gwell o'r gofodau.

Mae nifer o bethau'n dylanwadu ar lwyddiant canol trefi ac mae ceisio canfod cyswllt rhwng parcio ceir a ffyniant canol trefi yn hynod o anodd; mae'r ddarpariaeth manwerthu, masnach, hamdden a/neu dwristiaeth ehangach yn cael effaith fawr ar gystadleuaeth trefi. Fodd bynnag, gyda phopeth arall yn gyfartal, bydd parcio yn amlwg yn cael effaith a lle bo'r economi'n wan dylid defnyddio parcio i gefnogi'r strategaeth ar gyfer canol y dref a dylid eu prisio'n economaidd.

Mae adolygiadau diweddar ynglŷn â sut i adfywio prif strydoedd cenedlaethol wedi cyflwyno argymhellion ynglŷn â pharcio. Roedd Adroddiad Portas (2011) yn cynnwys argymhelliad allweddol ar gyfer awdurdodau lleol i ddarparu cynlluniau parcio rheoledig am ddim, ac yn adolygiad Bill Grimsey i ddyfodol y Stryd Fawr (2013) roedd yn dadlau bod angen i gynghorau ddarparu parcio am ddim ar stryd fawr (am ddwy awr) a chadw prisiau parcio'r un fath am o leiaf blwyddyn. Gweler Atodiad 3 ar gyfer cynllun prisio a gyflwynwyd gan Altrincham yn Trafford.

Mae adroddiadau Grimsey a Portas yn glir bod angen mwy o ymagwedd gydlynol. Mae ychydig o dystiolaeth hanesyddol sy'n nodi bod newidiadau i barcio ar y stryd wedi effeithio ar fasnach manwerthu ond mae diffyg tystiolaeth gadarn i gefnogi hyn a'r farn bod polisi prisio yn cael effaith andwyol ar yr economi leol.

Wedi dweud hynny, bydd cynnal adolygiad eang o reoli traffig a pharcio yn Sir Ddinbych yn darparu cyfle i asesu lle mae trefniadau cyfredol priffyrdd a pharcio yn cael effaith ar ganol trefi a darparu tystiolaeth gadarn er mwyn i'r awdurdod allu gwneud penderfyniadau. Gweler Atodiad 4 i gael rhagor o fanylion ynglŷn â'r adolygiadau arfaethedig.

Gellir cynnal adolygiad o bolisi parcio'r Cyngor, er mwyn penderfynu blaenoriaethau ar gyfer parcio ar y stryd yn hytrach na defnyddio'r meysydd parcio cyfredol, yn gyflym gan swyddogion a dylai gymryd tua 3 mis i'w gwblhau. Felly mae hwn yn waith y gellir ei gyflawni o fewn y cyllidebau cyfredol.

Gan eithrio adolygiad prisio, gallai'r adolygiadau eraill sydd wedi'u hamlinellu uchod fod yn waith sylweddol o ran cost a'r amser fydd eu hangen i'w cyflawni. Argymhellir felly cyn gwneud penderfyniad i barhau gyda'r adolygiadau hyn, bod angen cyflawni gwaith pellach i asesu cwmpas llawn o'r hyn sydd ei angen o'r adolygiadau ac i gael rhagamcan eithaf cywir o'r costau tebygol. Argymhellir bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio pan fydd y rhagamcan o'r costau ar gael cyn y gwneir penderfyniad i fynd ymlaen â'r adolygiadau.

Mae'n werth nodi y bydd adolygiad o gynhwysedd parcio yn dechrau yn Llangollen yn fuan. Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar gyflenwad parcio, yn hytrach nag unrhyw faterion rhwydwaith priffyrdd. Bydd yr adolygiad hefyd yn gymorth i wneud rhagamcanion costau ar gyfer gwaith ledled y Sir. Mae adolygiad parcio Llangollen yn cael ei ariannu o elfen draffig cyllideb cyfalaf Priffyrdd, fodd bynnag mae diffyg cyllideb ar gyfer cynnal ymarfer tebyg ar gyfer yr holl drefi felly bydd angen canfod ffynonellau cyllid eraill i symud y gwaith yn ei flaen pan fydd y costau'n wyddys.

Yn ogystal â'r data a gasglwyd gan Briffyrdd, bydd cytuno ar ddulliau o fesur effaith economaidd unrhyw fentrau ar Ganol y Dref yn allweddol i unrhyw newidiadau i'r Polisi/ Trefn Parcio. Mae'r dangoswyr posibl yn cynnwys:

- Nifer pobl – bydd angen buddsoddi mewn camerâu i gyfrif y niferoedd.
- Data gwariant cardiau credyd – gellir prynu hyn.
- Cyfraddau lleoedd manwerthu gwag.

Bydd gwaith pellach mewn perthynas â chostau a strategaeth ar gyfer mesur effaith economaidd mentrau o'r fath yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Cynlluniau Ardal hefyd yn darparu adborth pwysig ar flaenoriaethau'r aelodau mewn perthynas â pharcio ceir yn enwedig o ran Canol Trefi.

**5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae mynd i'r afael ag Isadeiledd Cludiant Lleol a rhwystrau tyfiant yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Darparu Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac mae

Datblygu'r Economi Lleol yn flaenoriaeth gorfforaethol. Mae potensial y bydd polisi parcio yn effeithio ar hyfywedd yr economi leol ac felly mae'n bwysig bod y polisi newydd yn cael ei ddrafftio ar y cyd gan dimau Datblygu Economaidd a Busnes a'r timau Priffyrdd a'r Amgylchedd er mwyn datblygu ymagwedd gydlynol integredig i ddatblygu gwasanaeth sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol y ddau faes gwasanaeth.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd adolygiad o'r polisi parcio cyfredol a drafftio polisi newydd yn cael ei gynnal gan staff cyfredol Priffyrdd a Datblygu Economaidd. Felly, bydd yn cael ei gyflawni o fewn y cyllidebau cyfredol.

Mae'n debyg y bydd cost adolygu cynhwysedd parcio, gwaharddiadau ar y stryd a pherfformiad rhwydwaith yn yr holl drefi yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar faint yr adolygiadau sy'n cael eu cyflawni. Felly, cynigir y dylid cynnal ymarfer cwmpasu i ddechrau er mwyn penderfynu beth sydd ei angen ac i gael syniad cywir o'r costau. Yna byddai'r costau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio cyn y gwneir unrhyw ymrwymiad i barhau.

Efallai y bydd argymhellion yr adolygiadau yn creu goblygiadau i'r Adran Gynllunio, ac felly byddai'n rhaid ymgynghori gyda'n cydweithwyr yn yr adran Gynllunio.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal ar gyfer y polisi parcio newydd.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gydag Archwilio ac eraill?**

Anfonwyd nodyn briffio i Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio yn flaenorol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylid cynnwys costau'r gwaith cychwynnol yn y cyllidebau cyfredol. Mae'n rhaid prisio unrhyw waith pellach a chanfod cyllideb cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad.

**10. Beth yw'r risgiau ac allwn ni wneud rhywbeth i'w lleihau?**
Mae risg oni chyflawnir yr adolygiadau a argymhellir a datblygu polisi parcio newydd yna byddai'r trefniadau cyfredol yn dirywio mewn addasrwydd ac yn cael effaith andwyol ar yr economi leol.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**
Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisïau.

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd Ffôn: 01824 706959